

PRITCHARD, MICHAEL (c. 1709 - 1733), bardd

Enw: Michael Pritchard
Dyddiad geni: c. 1709
Dyddiad marw: 1733
Rhiant: Richard William Pritchard
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Moelwyn Idwal Williams

Ganwyd c. 1709, mab i Richard William Pritchard, gwehydd a chlochydd, Llanllyfni, Sir Gaernarfon. Pan yn ifanc iawn aeth o Lanllyfni i Lanfechell ym Môn, lle y bu yn dilyn ei alwedigaeth fel garddwr yng ngwasanaeth **William Bulkeley**, Brynnddu. Yr oedd yn fardd medrus, ac y mae llawer o'i weithiau ar gael. Y mwyaf nodedig o'i gyfansoddiadau oedd ' Cywydd i'r Wyddfa '; ' Cywydd Marwnad Owen Gruffydd o Lanystumdwy (1643-1740) ' ' Englynion i'r Dderwen y dihangodd Charles II iddi am ei hoedl rhag y Rowndiaid. ' Ceir sawl dyddiad i farwolaeth Pritchard ond dywaid **Hugh Hughes** ('Bardd Coch') yn ei farwnad iddo farw yn 1733 yn 24 oed, yn Lanfechell, a chladdwyd ef yno 3 Gorffennaf 1733.

Awdur

Dr Moelwyn Idwal Williams

Ffynonellau

Y *Brython*, 1863, 205, 215

The Cambrian Biography (1803), 253

Y *Dysgedydd*, 1832, 120

Y *Gwladgarwr*, 1840, 82, 151, 176, 210

Y *Gwyllydydd*, 1833, 220, 376

H. Blackwell, **NLW MS 9270A: A Dictionary of Welsh Biography**

NLW MSS 1580, 836 (69)

Hugh Owen (gol.), *Additional Letters of the Morrisies of Anglesey (1735-86)*(London 1947-9)

J. Jones ('Myrddin Fardd')*Enwogion Sir Gaernarfon* (1922)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: **Q20733923**

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Williams, M. I., (1953). PRITCHARD, MICHAEL (c. 1709 - 1733), bardd. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-PRIT-MIC-1709>

Prifysgol

Prefatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government